

GYFEILLIO ABERYSTWYTH KRONBERG TWINNING (AKT)

POLISI ar gyfer cymorth ariannol ar gyfer ymweliadau â KRONBERG

Cyflwyniad

Nodau'r Gymdeithas gefeillio fel a nodir yn ein cyfansoddiad yw:

- 2.1 hybu a meithrin cyfeillgarwch a dealltwriaeth rhwng pobl Aberystwyth a'r cyffiniau â Kronberg.
- 2.2 annog ymweliadau gan deuluoedd a grwpiau, a thrwy hynny, ehangu'r cyd-ddealltwriaeth o weithgareddau diwylliannol, adloniadol, addysgol a masnachol y ddwy dref.
- 2.3 trefnu'r holl weithgareddau i feithrin nodau'r gymdeithas.

Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar sut y bydd y Gymdeithas yn ymdrin â cheisiadau am gymorth ariannol gan grwpiau ac unigolion sy'n ystyried ymweld â Kronberg a chyfnewid ag unigolion a grwpiau o ardal Kronberg-Im-Taunus.

Egwyddorion

- 1) Mae AKT yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gefeillio; ac mae gennym bolisi o gynorthwyo gefeillio drwy gyfrannu arian i helpu unigolion a grwpiau.
- 2) Mae AKT yn cydnabod mai ei phrif ffynhonnell incwm yw rhodd gan Gyngor Tref Aberystwyth; ac yn cydnabod bod yn rhaid gweinyddu'r arian cyhoeddus hwn yn ofalus, a rhoi cyfrif llawn amdano.
- 3) Mae AKT yn cydnabod bod yn rhaid i gymorth ariannol ystyried y ffaith bod gan rai pobl ar ymweliadau gefeillio fwy o anghenion ariannol, e.e. disgyblion ysgol.

Polisi

- 1) Ni all cymorth ariannol fod yn fwy na 50% o gost unrhyw daith neu gyfnewid.
- 2) Rhaid ceisio cymorth ariannol cyn bod yr ymweliad yn cael ei gynnal. Ni fydd AKT yn rhoi unrhyw gymorth ariannol yn ôl-weithredol.
- 3) Gellir rhoi cymorth ariannol mewn gwahanol ffyrdd:
 - a) swm o arian a roddir i'r unigolyn/grŵp wedi'i gyfrifo fel canran o gyfanswm y gost.
 - b) swm o arian a roddir i'r unigolyn/grŵp i brynu eitem benodol, e.e. cost bws i faes awyr.
- 4) Fel arfer, bydd ceisiadau am gymorth ariannol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd busnes AKT. Bydd y cais yn cael ei farnu yn ôl meini prawf penodol a bydd naill ai'n cael ei basio fel cais sydd i dderbyn cymorth neu beidio. Ar ôl ei dderbyn, bydd trafodaeth bellach am lefel y cymorth. Unwaith y bydd cyfarfod cworwm o AKT wedi cytuno a ddylsid cynorthwyo prosiect a beth yw lefel y cymorth, bydd yr Ysgrifennydd yn cyfleu'r canlyniad i'r ymgeisydd/ymgeiswyr.
- 5) Gellir ymdrin â cheisiadau brys gan swyddogion AKT rhwng cyfarfodydd a drefnwyd.
- 6) Mae angen i ddwy ran o dair o'r Aelodau gytuno ar geisiadau am gymorth ariannol mewn cyfarfod busnes, neu ddwy ran o dair o'r swyddogion.
- 7) Unwaith y cytunir arno, ni ellir dirymu'r cymorth drwy gyfarfod dilynol, oni bai bod y swm o arian a addawyd yn fwy na chronfeydd AKT yn ein cyfrifon banc.

Meini prawf ar gyfer barnu cymorth ariannol

- 1) A yw'r cais yn cyd-fynd â nodau cyfansoddiadol AKT?
- 2) A yw'r cais yn un untro, neu a oes ganddo'r potensial i sefydlu cyfnewid a allai fod yn fwy parhaol?
- 3) Faint mae'r unigolyn neu'r grŵp yn ei dalu tuag at yr ymweliad? Ar gyfer pobl o dan 18, neu grwpiau o bobl o dan 18, gall y cymorth a gynigir fod hyd at uchafswm o 50% o gyfanswm y gost. Ar gyfer oedolion neu grwpiau o oedolion, gall y cymorth a gynigir fod hyd at uchafswm o 25% o gyfanswm y gost.

Archwilio

- 1) Rhaid i bob cais am gymorth ariannol gael ei wneud gan ddefnyddio'r ffurflen gais swyddogol. Rhaid i'r holl wybodaeth y gofynnir amdani fod ynghlwm wrth y ffurflen pan gaiff y cais ei wneud.
- 2) Bydd cymorth ariannol yn cael ei roi naill ai:
 - a) fel siec y mae'n rhaid ei thalu i gyfrif banc yr unigolyn sy'n gofyn am gymorth neu'r sefydliad sy'n gofyn am gymorth, neu
 - b) fel anfoneb (e.e. ar gyfer trip bws) y bydd trysorydd AKT yn ei thalu'n uniongyrchol.
- 3) Ar ôl yr ymweliad, rhaid i'r unigolyn/sefydliad gyflwyno adroddiad am yr ymweliad.
- 4) Os na fydd yr ymweliad yn digwydd am unrhyw reswm, bydd AKT yn gofyn i'r rhodd gyfan gael ei dychwelyd at drysorydd AKT.

----- diwedd y polisi -----

Troed nodyn

Mae'r uchod yn berthnasol i geisiadau gan unigolion neu sefydliadau am gymorth gydag ymweliadau gefeillio. Gall AKT barhau i gynnig i dalu costau llawn person sy'n ymweld â Kronberg er budd y Gymdeithas, os yw AKT yn barnu ei fod o fudd i'r gymdeithas, e.e. talu am berfformiwr i fynychu'r farchnad Nadolig yn Kronberg.

CAIS am gymorth ariannol gan AKT

Mae'r ffurflen hon at ddefnydd unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais am gymorth ariannol mewn perthynas ag ymweliad â Kronberg-Im-Taunus er mwyn hyrwyddo amcanion gefeillio trefi.

ENW	
CYFEIRIAD	
E-BOST	
RHIF FFÔN	
ENW Y CYFRIF BANC	
SAFLE YN Y SEFYDLIAD	

I unigolion, ticiwch y bocs
ar gyfer eich hoedran

O dan 18

Dros 18

Pam ydych chi'n ceisio cymorth ariannol gan AKT? Rhowch grynodeb o bwrpas eich ymweliad arfaethedig â Kronberg-Im-Taunus.

Dyddiad yr ymweliad arfaethedig â
Kronberg-IM-Taunus

GWYBODAETH ychwanegol sydd ei hangen

**Ar gyfer ymgeiswyr
unigol**

Cyfanswm cost y daith	£
Cyllid wedi'i godi/ei addo o ffynonellau eraill	£
Ydych chi wedi bod i Kronberg o'r blaen?	
A oes unrhyw un o Kronberg wedi ymweld â chi yn Aberystwyth o'r blaen?	

Ar gyfer sefydliadau

Cyfanswm cost y daith	£
Cyllid wedi'i godi/ei addo o ffynonellau eraill	£
Rhowch balans cyfredol eich banc	£
Rhowch eich incwm blynyddol disgwylidig	£

Rhaid i bob sefydliad hefyd ddarparu'r dogfennau canlynol:

- copi o'ch cyfansoddiad
- copi o'ch cyfrifon blynyddol (os ydych mewn bodolaeth am fwy nag un flwyddyn)

Bydd eich cais yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y gymdeithas. Os bydd eich ymweliad arfaethedig yn digwydd cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd, bydd yn cael ei ystyried gan swyddogion y gymdeithas. Cewch eich hysbysu o ganlyniad eich cais gan yr Ysgrifennydd.

Nodiadau

- 1) os bydd eich cais am gymorth ariannol yn llwyddiannus, bydd y Trysorydd yn anfon y siec at y person a wnaeth y cais. Os dymunwch i'r siec gael ei hanfon at unigolyn arall (e.e. eich Trysorydd) Rhowch y cyfeiriad yma:

--

- 2) ar ôl eich ymweliad, bydd disgwyl i chi anfon crynodeb byr o'r ymweliad ar gyfer ein ffeiliau.
- 3) os nad yw'r ymweliad yn mynd yn ei flaen am unrhyw reswm, bydd yn ofynnol i chi ddychwelyd yr arian a roddwyd i chi i AKT.